# Geirfa Allweddol

**Gwaredu** - cael gwared o rywbeth, *to get rid of*
**Adnoddau** - pethau sydd ar gael i wneud rhywbeth, *resources*
**Diogelu** - gwneud yn ddiogel, yn saff, amddiffyn, *to safeguard, protect*
**Llygredd** - budreddi, pydredd, *pollution*
**Cyhoedd** - pobl yn gyffredinol, *public*
**Cysdyniad tybiedig** - cymryd yn ganiataol eich bod chi'n cytuno os nad ydych wedi dweud yn wahanol, *presumed consent*
**Galluogi** - helpu rhywun i wneud rhywbeth, *to enable*
**Darparu** - rhoi y pethau sydd eu hangen ar berson, *to provide*
**Claddu** - rhoi yn y ddaear o dan bridd, *to bury*
**Amlosgfa** - adeilad pwrpasol i losgi cyrff, *crematorium*
**Trawsblannu** - symud organ o un corff a'i roi mewn corff arall, *to transplant*
**Gwerthfawr** - yn costio llawer o arian neu yn bwysig yng ngolwg person, *valuable*
**Arennau** - organau sy'n rhannu'r carthion a'r dŵr oddi wrth y gwaed, *kidneys*
**Iau** - organ sy'n puro'r gwaed, *liver*
**Organau** - rhan o'r corff sydd yn chwarae rôl allweddol, *organs*
**caniatad** - rhoi caniatad, *give permission*
**caniatad datganedig** - gwneud datganiad clir o fwriad neu ganiatad,
**Optio i mewn** - gwneud dewis i fod yn gynwysiedig, *opting in*
**Optio allan** - gwneud dewed i beidio bod yn gynwysiedig, *opting out*
**Rhestr rhoddwyr** - Rhestr o bobl oedd wedi rhoi caniatad i roi organau cyn 1 Rhagfyr 2015, *Donor list*
**Elusen** - grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd i helpu eraill, *charity*
**Ymgynghori** - cynnal trafodaeth gyda pobl cyn dod i benderfyniad, *consultation*
**Trawsblaniad** - defnyddio organau o un corff a'u rhoi mewn corff arall i wella neu achub bywyd, *transplant*
**Protestaniaid a Chatholigion** - Y ddau draddodiad mawr o fewn Cristnogaeth, *Protestants and Catholics*
**Y Pab** - Arweinydd byd-eang yr Eglwys Gatholig. Mae ei bencadlys yn y Fatican yn Rhufain, *The Pope*
**Archesgob** - Y prif esgob sy'n gyfrifol am ardal, *Archbishop*
**Archesgob Efrog** - Yr Archesgob agosaf at Archesgob Caergaint mewn awdurdod, *Archbishop of York*
**Mwslim** - Un sy'n dilyn crefydd Islam.
**Qur'an** - Llyfr sanctaidd crefydd Islam.
**Dydd y Farn** - Y gred mewn Islam y bydd pawb yn cael eu hatgyfodi ar ddiwrnod arbennig i wynebu barn Allah. Bydd y rhai sydd wedi bod yn ffyddlon iddo yn cael mynd i Baradwys a'r rhai sydd ddim yn mynd i Uffern. *Doomsday*
**Allah** - Yr enw Arabaidd am Dduw.

**Cyfraith Shariah** - Cyfraith grefyddol Islam, *Shariah Law*
**Imam** - Arweinydd Islamaidd mewn mosg
**Ailymgnawdoliad** - Y gred mewn Hindwaeth bod yr enaid ar ôl i'r corff farw yn symud ymlaen i gorff arall. *reincarnation*
**Enaid** - Y rhan ysbrydol o berson, *soul*
**Moksha** - Nod Hindwaeth sef torri cylch ail-eni i ganiatau i'r enaid fynd yn ôl at Brahman - yr enaid mawr
**Deddf Karma** - Deddf achos ac effaith, *Karma act*
**Vedas** - Llyfrau sanctaidd Hindwaeth, *Hindu books*
**Dharma** - Dyletswydd mewn Hindwaeth. *Duty in Hinduism*
**Bhagavad Gita** - Un o'r darnau mwyaf poblogaidd o'r ysgrythurau Hindwaidd, *Hindu scriptures*